



Prifysgol Cymru  
Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales  
Trinity Saint David



CANOLFAN  
GWASANAETHAU  
CYMRAEG  
WELSH LANGUAGE  
SERVICES CENTRE



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru  
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies



# Tystysgrif Polisi a Chynllunio Iaith

## Hyrwyddo'r Gymraeg

### 02/02/26

## Sesiwn 2: Cynllunio Iaith Cymunedol

|       |                                                                                   |
|-------|-----------------------------------------------------------------------------------|
| 9:30  | Rhan 1: Tasg Hyrwyddo'r Gymraeg                                                   |
| 10:00 | Rhan 2: Cynllunio leithyddol Cymunedol.<br>Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg |
| 11:20 | <b>Egwyl</b>                                                                      |
| 11:30 | Rhan 3: Myfanwy Jones, Cyfarwyddydd Mentrau Iaith Cymru                           |
| 12:25 | Dysgu Cyfeiriol a Ffarwelio                                                       |

# Pa ffactorau sydd yn rhaid eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer hyrwyddo iaith leiafrifedig, er mwyn arwain at gynnydd yn ei defnydd?

- Agweddau o fewn y gymdeithas - ar beth mae'r rhain yn seiliedig?
- Hyder/sgiliau
- Trosglwyddiad iaith
- Polisi iaith (*y gallu i gefnogi neu atal, cynigion "rhagweithiol"*)
- Statws cyfreithiol neu ganfyddiadol
- Gwerth economaidd yr iaith, statws economaidd ei siaradwyr
- Adnoddau cyllidol a strwythur yr economi
- Addysg (*Caffael yn blentyn a dysgu fel oedolyn*)
- Cyfryngau, cyfryngau cymdeithasol, seilwaith technolegol yr iaith, DA
- Ffactorau demograffig (*oed, dosbarth, hyfywedd iaith mewn lle daearyddol/mudo ac ati*)
- Dwysedd a sefydlogrwydd/symudedd y boblogaeth
- Cyfleoedd i'w defnyddio – *gwahanol beuoedd yn cynnwys y sector cyhoeddus, preifat a chymunedol*
- Cymhelliant a chadernid yr unigolyn i'w defnyddio
- Strwythurau sydd ar waith – economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol, isadeiledd

**Oes rhagor?  
Beth yw'r berthynas  
rhwng hyrwyddo a defnydd?**

## GWLEIDYDDOL

- Anodd gwahaniaethu rhwng y gwahanol themâu e.e. ble mae Addysg yn ffitio orau?
- Pobl ifanc yn gadael Cymru ar gyfer addysg uwch. A ydyn nhw yn dychwelyd?
- Recriwtio athrawon? Gwrthdaro rhwng recriwtio athrawon all ddysgu yn Saesneg a negeseuon i annog neu hyrwyddo
- Ydy'r sin Gymraeg yn dibynnu'n ormodol ar gyfalaf gwirfoddol ? Yn y dyfodol a fydd rhaid i ni wneud mwy, ble roedd y wladwriaeth yn darparu yn y gorffennol?

## ECONOMAIDD

**Tasg ar gyfer Sesiwn 2 – a allwch chi roi'r ffactorau a nodwyd i mewn i'r meysydd isod?**

## CYMDEITHASOL-DDIWYLLIANNOL

- Cyrraedd pawb
- Addysg

## TECHNOLEGOL

- Pwysigrwydd bydoedd digidol, yn enwedig i bobl ifanc

## DEMOGRAFFIG

# Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg



## Pennod 11: Cynllunio leithyddol Cymunedol

Pwyslais ar ardaloedd o arwyddocad ieithyddol  
dwysedd uwch

Ystyriwn yr is-benawdau a'r argymhellion

3.16 Map o LSOAs lle mae dros 40% a 25% yn medru siarad Cymraeg

Canran y siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2021) – Cymru



# Cylch Gorchwyl : Cam 1 y Comisiwn

Oherwydd yr argyfwng cymdeithasol a sosio-economaidd sydd wedi codi mewn cymunedau Cymraeg, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno fod gwaith y Comisiwn yn canolbwyntio ar sefydlogi a hyrwyddo'r iaith mewn ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth mewn meysydd fel ail gartrefi, tai, a'r sylfaen economaidd drwy waith y Bwrdd Crwn Tai, Economi ac Iaith ynghyd â rhaglen waith Arfor 2.

Gall y Comisiwn bennu rhai amcanion o'i eiddo ei hun sy'n fuddiol yn ei farn ef i ddyfodol y Gymraeg **fel iaith gymunedol**, ond mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'r Comisiwn drafod yr amcanion canlynol fel rhan o'i gylch gorchwyl:

- cynnig dadansoddiad o ganlyniadau cyfrifiad 2021 wedi iddynt gael eu cyhoeddi, yn ogystal â chraffu ar ffynonellau perthnasol eraill, er mwyn archwilio i sefyllfa gyfredol y Gymraeg
- adnabod **ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol** lle y gall fod angen **ymyrraeth bolisi** er mwyn cefnogi a chryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol
- adnabod ymyraethau polisi posib er mwyn cynnal a chryfhau'r Gymraeg **fel iaith gymunedol** yn enwedig mewn ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol a gwneud argymhellion polisi yn eu cylch
- bydd ymyraethau posib o'r fath yn perthyn i ddau ddosbarth:
  - **ymyraethau uniongyrchol o ran polisi iaith**
  - ymyraethau sy'n ymateb i **gyd-destunau sosio-economaidd, cymdeithasol ac addysgol ehangach** (neu unrhyw fater perthnasol arall) sydd yn effeithio ar gynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol
- bydd y Comisiwn yn gwneud hynny mewn dwy ffordd:
  - Gall cynnig cyngor mewn perthynas â pholisi cyhoeddus sy'n cael ei ddatblygu. Yn y tymor byr, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i glywed barn y Comisiwn o ran datblygiad y **Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg**, ac hefyd yng nghyd-destun datblygu papur gwyn ar y **Bil Addysg Gymraeg** i sicrhau bod y system gynllunio addysg yn ystyried y cyd-destun cynllunio ieithyddol ehangach. Gallai fod meysydd eraill hefyd lle byddai hyn yn fuddiol; er enghraifft TAN 20.
  - Gwneud **argymhellion polisi cyhoeddus** o ran cryfhau'r Gymraeg yn gymunedol yn fwy cyffredinol, yn enwedig mewn ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol. Dylai hyn fod ar ffurf adroddiad. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno derbyn yr adroddiad hwn cyn pen dwy flynedd ers dyddiad sefydlu'r Comisiwn.


Mae Cymraeg 2050 hefyd yn arddel yr iaith fel **iaith genedlaethol i Gymru gyfan**. Am y rheswm hwn, byddwn yn gosod ail gam i waith y Comisiwn yn dilyn cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth am sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol mewn ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol. Bydd yr ail gam yn ffocysu ar ddefnydd iaith mewn ardaloedd eraill o Gymru.

# Trafod a Myfyrio ar seiliau'r Comisiwn


- A oes tensiwn rhwng ardaloedd dwysedd uwch a'r iaith fel iaith genedlaethol?
- Beth am ddatblygiad y Gaeltacht? Iaith treftadaeth?
- Gwneud defnydd call o adnoddau prin. Lefelau uwch o ddefnydd y Gymraeg yn y cymunedau dwysedd uwch. Low hanging fruit. Mynd ar ôl yr ardaloedd ble mae llwyddiant yn fwy tebygol gan fod adnoddau yn fwy prin.
- Y detholedig rai? A fyddai hyn yn rhoi mwy o statws a bri i'r ardaloedd hyn. Yna pobl sy'n byw yn yr haen ganol yn gallu edrych at gyrraedd y statws uwch. Ond a fyddai'n rhy negyddol neu ddigalon ar gyfer y rhai sydd yn yr ardaloedd canran isel.
- Ysgolion uwchradd a newid categoreiddio – digalonni, diflasu. Her recriwtio athrawon, ond her cadw athrawon. Ffin denau rhwng statws a bri a digalonni fod y targed yn uchel. Newid polisi iaith yn gallu teimlo fel ei fod yn rhy anodd i'w gyrraedd
- Ffocws ar addysg yn wych ond iaith y dosbarth yn hytrach na iaith y gymuned. Allan o'r dosbarth wir yn bwysig i bobl ifanc. Tynnu'r ffocws oddi ar gywirdeb iaith, ond ar ddefnydd. Siawns i defnyddio'r iaith yn gymunedol.
- Fawr ddim pwyslais ar y sector preifat. Cryfhau sector cyhoeddus ond dim gymaint yn y sector preifat. Asgwrn cefn yr economi hefyd. Cyswllt efo'r Colegau Addysg Bellach. Gwaith caled ar waelod y scale, newid shifft diwylliant, ond mae mwy o arian ar gael ar lefel uchaf y polisi. Gwarchod y dwysedd uchel a chadw'r ddisgl yn wastad.
- Ffracsiynau o fewn yr ardaloedd dwysedd uwch?

3.16 Map o LSOAs lle mae dros 40% a 25% yn medru siarad Cymraeg

Canran y siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2021) – Cymru



Map o LSOAs lle mae dros 40% a dros 20% yn medru siarad Cymraeg



# Cylch Gorchwyl : Cam 2 y Comisiwn

Prif nod ail gam y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yw ystyried sefyllfa'r Gymraeg mewn ardaloedd sydd â dwysedd canolig neu is o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a thu hwnt. Bydd disgwyl i'r Comisiwn gyflwyno argymhellion polisi i Lywodraeth Cymru cyn pen dwy flynedd.

Gall y Comisiwn bennu rhai amcanion o'i eiddo ei hun sy'n fuddiol yn ei farn ef i ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol, serch hyn mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'r Comisiwn drafod yr amcanion canlynol fel rhan o gylch gorchwyl yr ail gam:

- Ystyried sefyllfa'r Gymraeg fel **iaith gymdeithasol/gymunedol** mewn cymunedau sydd â **dwysedd canolig neu is** o siaradwyr Cymraeg.
- Ystyried sut y gellir cryfhau **cynaliadwyedd y Gymraeg a defnydd** o'r Gymraeg yn y cymunedau hyn.
- Adnabod rôl a chyfraniad meysydd polisi allweddol mewn perthynas â'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn pan fo hynny'n berthnasol.
- Ystyried strategaethau perthnasol o ran y Gymraeg mewn cymunedau sydd â dwysedd canolig neu is o siaradwyr Cymraeg (er enghraifft, lle ceir rhwng oddeutu 25% a 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg).
- Cwblhau adroddiad cryno ar **gynllunio gwlad a thref** erbyn mis Rhagfyr 2024.
- Ystyried presenoldeb **y Gymraeg tu hwnt i Gymru**, gan gynnwys y cyfraniad y gallai siaradwyr Cymraeg yno ei wneud i ffyniant y Gymraeg yn gyffredinol.
- Cyflwyno adroddiad ac argymhellion polisi cyhoeddus i Lywodraeth Cymru cyn pen dwy flynedd o ddyddiad ei sefydlu.

# EGWYL





Prifysgol Cymru  
Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales  
Trinity Saint David



CANOLFAN  
GWASANAETHAU  
CYMRAEG  
WELSH LANGUAGE  
SERVICES CENTRE

# Mentrau Iaith Cymru

Myfanwy Jones, Cyfarwyddydd





Prifysgol Cymru  
Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales  
Trinity Saint David



CANOLFAN  
GWASANAETHAU  
CYMRAEG  
WELSH LANGUAGE  
SERVICES CENTRE

# Dysgu Cyfeiriol

Mewn paratoad at Sesiwn 3

Ymgylfarwyddwch gyda chefnidir [Prosiect BRO](#)

